

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 8fed Mawrth, 2023 at 10.00 am

YN

BRESENNOL:

CYNYRCHIOLWYR CYNGHORWYR SIROL:

County Councillor Martyn Groucutt (Cadeirydd)

County Councillor Paul Pavia

County Councillor Louise Brown

CYNYRCHIOLWYR FFYDD:

Sue Cave

Suzanne Gooding

Maddie Sareirah

Ali Szwagrzak

Chris Francis (Observing)

CYNYRCHIOLWYR ATHRAWON:

Ddim

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Sharon Randall-Smith

Wendy Barnard

Hayley Jones

Geraint Edwards

Pennaeth Cyflawniad a Chyrhaeddiad

Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

Curriculum Partner (SACs and RVE)

Solicitor

APOLOGIES:

Councillors Angela Sandles

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Nid oedd DIM CWORWM oherwydd nid oedd Cynrychiolwyr yr Athrawon yn bresennol, ac felly, ni ellid gwneud unrhyw benderfyniadau. Nid yw nodiadau'r cyfarfod yn rhai gorfodol y mae'n rhaid cydymffurfio gyda hwy.

Croesawodd y Cadeirydd Maddie Saareh, sef cynrychiolydd Mwslimaidd newydd i'r cyfarfod a Chris Francis, yn cynrychioli Dyneiddiaeth. Bydd Chris yn arsylwr hyd nes y bydd CYS wedi'i gyfansoddi.

2. I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26ain Hydref 2022 a materion sy'n codi

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 8fed Mawrth, 2023 at 10.00 am

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2022 fel cofnod cywir ond byddant hefyd yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf i'w cymeradwyo oherwydd nad oes cworwm.

Materion yn Codi:

Diweddariad Aelodaeth: Mewn ymateb i ymholiad, eglurwyd bod aelodaeth NRPC wedi cael ei hystyried gan y Cyngor Llawn ond nid oedd y ffordd y cymeradwywyd y penderfyniad yn gyfreithlon gan mai dim ond i CYS y gellir penodi cynrychiolydd NRPC ac nid CYSAG. Nid yw'r CYS wedi'i chyfansoddi'n briodol eto. Mae'r eitem nesaf i ystyried Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl y CYS yn ceisio unioni'r sefyllfa hon fel y gellir ychwanegu cynrychiolydd yr NRPC. Bydd y CYS yn dod i fodolaeth yn dilyn newidiadau i'r cyfansoddiad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Mynegwyd y farn nad oedd yn gywir i ddweud nad oedd hyn yn gyfreithiol gan nad yw'r CYS wedi ei sefydlu oherwydd mae'r CYSAG yn parhau hyd nes y cytunir i fod yn CYS felly dylai penderfyniad y Cyngor sefyll. Eglurodd y Cadeirydd mai'r cyngor ynghylch diwygio'r Cyfansoddiad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Sir ym mis Mai fydd y dylid cael un corff yn y dyfodol yn cyfuno CYS a CYSAG i barhau i gyflawni ei ddyletswyddau o gwmpas addysgu addysg grefyddol hyd nes y bydd yn cael ei drawsnewid yn gyfan gwbl i CGM ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2025/26. Ni fyddai aelodau CYS nad oeddent yn aelodau o CYSAG o'r blaen yn gallu pleidleisio ar faterion yn ymwneud ag addysgu addysg grefyddol.

Adroddiadau arolygu: O ran darparu adroddiadau arolygu, esboniwyd bod Estyn wedi newid y ffordd y mae'n arolygu ac adrodd. Nid yw Estyn bellach yn adrodd yn awtomatig ar addysg grefyddol ac mae llawer o arolygiadau Adran 50 wedi'u gohirio sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a gesglir fel arfer o'r adroddiadau arolygu ar gael fel o'r blaen. Mae'n fater i'w drafod sut mae'r wybodaeth berthnasol yn cael ei chasglu erbyn hyn er mwyn i CYSAG/CYS allu sicrhau ei hun bod y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n ddigonol mewn ysgolion. Mae trafodaethau gyda CCYSAGauC ynghylch y ffordd orau o rannu'r wybodaeth yn parhau. Bydd arolygwyr Estyn yn arsylwi addoli ar y cyd a gallant adrodd arno neu beidio. Mae ysgolion yn cynnal hunanwerthusiad ac maent wedi bod yn hapus i roi'r wybodaeth i ni. Gall ysgolion A50 ddarparu'n haws oherwydd dilysu allanol. Bydd gwaith gydag ysgolion yn parhau dod o hyd i ffordd resymol ac ymarferol o adalw'r wybodaeth hon. Yn y cyfamser, bydd yr Ymgynghorydd CGM yn casglu gwybodaeth o adroddiadau diweddar Estyn ar gyfer CYSAG/ CYS.

3. Cyfansoddiad a Chylch Gorchwyl y CYS

Cyflwynodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr adroddiad ar Gyfansoddiad yr CYS a'r Cylch Gorchwyl yn cynnig bod y Swyddog Monitro yn gweithredu'r diwygiadau arfaethedig i Gyfansoddiad PLIY yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor Sir ym mis Mai 2023 i ffurfioli sefydlu CYS. Wedi cyflwyno'r adroddiad, gwahoddwyd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau:

- Awgrymodd Aelod fod yr adroddiad yn cael ei adolygu yn sgil cyngor diweddar gan Lywodraeth Cymru yn cynnig bod y CYSAG a'r CYS yn cydfodoli gan fod angen i swyddogaethau CYSAG barhau tan haf 2026. Dylai'r cyfansoddiad a'r cylch gorchwyl wahaniaethu rhwng swyddogaethau pob corff. swyddogaethau gan gyfeirio at y maes llafur cytûn ar gyfer AG ar gyfer CYSAG a'r maes llafur cytûn ar gyfer RVE ar gyfer CYS. Mae'r cyfrifoldebau am addoli ar y cyd yn parhau i fod ar gyfer CYSAG a'r CYS ynghyd â'r hawl i dynnu'n ôl o AG.
- Gan gyfeirio at adroddiad Mawrth 2022 i'r Cyngor, awgrymodd Aelod fod cynrychiolydd yr NRPC yn arsylwi ar CYSAG yn unig a dywedodd nad oedd unrhyw grŵp NRPC

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 8fed Mawrth, 2023 at 10.00 am

penodol wedi'i benderfynu gan CYS a holodd a ddylid ceisio datganiadau o ddiddordeb i sicrhau cynrychiolaeth lawn i symud i CYS newydd. Nododd y Cadeirydd na fu unrhyw broses ffurfiol yn hanesyddol i benodi aelodau ac awgrymodd sefydlu dull recriwtio tryloyw a gwrthrychol. O ran cynrychiolaeth NRPC, gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb a Dyneiddiaeth oedd yr unig ymateb a dderbyniwyd. Yn ogystal, mae Dyneiddiaeth yn rhan o faes llafur CGM.

- Gan gyfeirio at yr adroddiad, dywedodd y Cynghorydd Cyfreithiol fod y Cyngor yn parhau'n ddilys ac anghytunodd fod y geiriad "materion etifeddiaeth" yn annigonol gan y bydd modd rhoi cyngor ar faterion etifeddiaeth fel y nodir yn y statud yn ôl yr angen. Holwyd a oedd grŵp Dyneiddiol lleol
- Gan ymateb i ymholiadau am CYS a CYSAG, eglurodd y Cadeirydd y byddai un corff. Bydd CYSAG yn rhan o'r CYS i adolygu AG tan 2026. Awgrymwyd bod pryderon yn cael eu danfon ymlaen at y Swyddog Monitro.
- Gofynnodd Aelod a ellid ceisio eglurhad o ganllawiau Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Cyfreithiol siarad â'r Swyddog Monitro ac os oedd yn meddwl bod angen ceisio eglurhad. Os derbynnir cyngor gan Lywodraeth Cymru, gofynnwyd i hwn gael ei anfon ymlaen at y Cynghorydd Pavia a Brown. Os bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu cysylltu â Llywodraeth Cymru i gael eglurhad, gofynnwyd iddo rannu'r cyngor a gafodd y Cynghorydd Brown gan Lywodraeth Cymru a CCYSAGC.

4. Adroddiad Aelodaeth

Roedd yr adroddiad Aelodaeth wedi ei dderbyn yn unol gyda'r rhestr ar yr agenda.

Gan gyfeirio at wneud penodiadau i'r CYS, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r ALL yn gyfrifol am wirio bod y sawl a benodir yn cynrychioli'r sefydliad dan sylw.
- Bydd gweithgor sy'n cynnwys y Cadeirydd, y Cynghorydd Cyfreithiol, y Cynghorydd CGM a Sharon Randall-Smith yn gweithio ar ddull penodi tryloyw a gwrthrychol i geisio cynrychiolaeth o grwpiau lleol ar gyfer y CYS fel y broses o benodi Llywodraethwyr Ysgol Awdurdod Lleol. Bydd y grŵp yn adrodd yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.
- Bydd y Cynghorwyr yn cyfarfod i fynd i'r afael â lleoedd gwag y cyngor.
- Holwyd, wrth ffurfio'r corff newydd (CYS) a fyddai angen adolygu pob sefyllfa.

5. Diweddariad Partner Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y GCA

- Bydd y Cynghorydd CGM yn darparu crynodeb o addoli ar y cyd a gwasanaethau ar gyfer ysgolion gan ddarparu gwybodaeth am debygrwydd a gwahaniaethau. Mae'r mater hwn hefyd i'w drafod gan NAPFRE a CCYSAGauC.
- Nid yw adnoddau Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi eto.
- Bydd CCYSAGauC yn cynnal adolygiad o feysydd llafur cytûn ledled Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag ethos ac ysbryd y cwricwlwm newydd.
- Mae Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru yn cynnal hyfforddiant ar ei hadnoddau ar 22 Mawrth 2023. Manylion i'w dosbarthu.

6. Busnes CCYSAGauC

- a) CYSAG Cymru: Nodwyd cofnodion cyfarfod yr Hydref a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022.
- b) Enwebiadau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC: Mae CC L. Brown yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith tan 2025.

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL

Minutes of the meeting of Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mercher, 8fed Mawrth, 2023 at 10.00 am

- c) Llythyr CCYSAGauC: Llywodraeth Cymru i gynnal ymarfer bwrdd desg, sy'n cynnwys edrych ar destun y maes llafur cytûn ar gyfer pob Awdurdod Lleol er mwyn cael syniad o ba mor ffyddlon yw'r rhain i weledigaeth ac ethos CGM yn y Cwricwlwm ar gyfer Cymru. Dosbarthwyd llythyr hefyd i ddiolch i bawb am y gwaith ar y Maes Llafur Cytûn.
- d) Cyfarfod Gwanwyn CCYSAGauC. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn rhithwir gan CYSAG Sir Benfro a bydd yn cael ei gynnal ar ddydd Mawrth 21 Mawrth. Gall pedwar cynrychiolydd fod yn rhannu.

7. Unrhyw Fater Arall

Nid oedd unrhyw fusnes ychwanegol.

8. Dyddiad y cyfarfodydd nesaf a'r dyfodol: 14eg Mehefin 2023 am 3pm (Nodwch yr amser newydd)

Esboniodd y Cynghorydd Cyfreithiol mai'r cyfarfod nesaf fydd y CYS.

Y cyfarfod diwedd yn 11.01 am